John Griffiths AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol
a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Tachwedd 2016

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus- Ymchwiliad i Gymdeithasau Tai**

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Medi, 2016 a oedd yn cynnwys gohebiaeth a anfonwyd atoch gan Adam Price AC, dyddiedig 1 Medi, 2016. Roedd yr ohebiaeth yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y bwriad i uno Tai Cantref a Wales and West Housing.

Wrth ystyried ei flaenraglen waith yn ddiweddar, cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnal ymchwiliad i Drefn Reoleiddio Cymdeithasau Tai Cymru. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ei ymchwiliad:

- Archwilio pa mor effeithiol yw'r Fframwaith Rheoleiddiol presennol ar gyfer cymdeithasau tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru;
- Asesu effeithiolrwydd ac ansawdd y trefniadau llywodraethu;
- Penderfynu a yw'r drefn reoleiddio bresennol yn ddull effeithiol o reoli a lliniaru risgiau drwy'r sector cyfan;
- Ystyried a yw'r trefniadau cyd-reoleiddio yn effeithiol yn ymarferol;
- Lefelau tâl yr uwch-swyddogion sy'n gweithio i gymdeithasau tai.

Bydd y Pwyllgor yn lansio ei ymgynghoriad ar 21 Tachwedd 2016 ac os ydych yn dymuno cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, y dyddiad cau yw 6 Ionawr 2017.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**